# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 06-06 (p.1)

### Dyddiad: 12 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Adroddiad y Gweinidog

#### Diben

1. Rhoi'r manylion diweddaraf ynghylch amryfal faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

#### Argymhelliad

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

#### Y Cefndir

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2006. O ganlyniad i'r amser byr rhwng cyfarfodydd, mae'r papur yn anghyffredin o gryno ar yr achlysur hwn.

#### Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

- 28 Mehefin 2006 Ymweliad Arglwydd Faer Llundain, yr Henadur David Brewer

Cynhaliais ginio ar gyfer Arglwydd Faer Llundain gan wahodd gwesteion o rai o sefydliadau ariannol blaenaf Cymru. Roedd yn gyfle i drafod materion sy'n effeithio ar sector ariannol Cymru i godi'r ymwybyddiaeth am Gymru dramor, drwy ymweliadau rhyngwladol yr Arglwydd Faer.

- 4 Gorffennaf 2006 Ymweliad Conswl Anrhydeddus Cape Verde, Mr Joao Roberto

Cyfarfûm â Mr Joao Roberto, Conswl Anrhydeddus Cape Verde. Buom yn trafod ailgreu cysylltiadau rhwng Caerdydd/Cymru a Mindelo, Cape Verde.

- 5 Gorffennaf 2006 Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Mr Lachezar Nikolov Matev, Llysgennad Bwlgaria

Cyfarfûm ag Ei Ardderchogrwydd Lachezar Nikolov Matev, Llysgennad Bwlgaria, a oedd yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf.

- 12 Gorffennaf 2006 Ymweliad Gweinidog Economaidd Latfia, Aigars Štokenbergs

Byddaf yn cyfarfod â Gweinidog Economaidd Latfia y prynhawn yma yn ystod ei ymweliad â Chymru. Mae Mr Štokenbergs wedi dod i Gymru fel rhan o daith fasnach fawr o Latfia. Rhydd y cyfarfod gyfle da i drafod cysylltiadau agos Cymru â Latfia.

## Materion Eraill

Cymorth Rhanbarthol, y sefyllfa ddiweddaraf - Bu trafodaethau parhaus rhwng swyddogion a'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch map newydd yr Ardaloedd a Gynorthwyir, yn dilyn ymarfer ymgynghori'r DU a ddaeth i ben ar 19 Ebrill 2006. Daeth mwy na 200 o ymatebion manwl i'r ymgynghoriad hwn i law'r Adran Masnach a Diwydiant, a bu'n rhaid i swyddogion ystyried y rhain wrth baratoi drafft o'r map. Bydd hwn yn destun ymarfer ymgynghori pellach yn y DU cyn ei anfon at y Comisiwn Ewropeaidd i'w gymeradwyo yn yr hydref.

Cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddrafft o'r map er mwyn i Lywodraeth y DU a Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig ei ystyried ar 22 Mehefin 2006. Yn ddarostyngedig i gytundeb, bwriedir cyhoeddi'r map drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf.

Sefyllfa ddiweddaraf y Cronfeydd Strwythurol: Mae rheoliadau'r Gronfa Strwythurol ar fin cael eu cytuno, a'r cyfan sydd ar ôl i'w wneud yw cynnal pleidlais yn Senedd Ewrop a chael cymeradwyaeth derfynol Cyngor y Gweinidogion. Yng Nghymru, mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt yn dda. Byddaf yn cyflwyno'r rhaglen Gydgyfeirio ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf, a byddwn yn dychwelyd at y pwyllgor hwn ym mis Medi. Bydd y rhaglenni Cystadleurwydd yn dilyn yn yr hydref. Rydym yn cynnal trafodaethau agos â'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch dyraniadau’r rhaglenni hyn. Rwyf wedi dweud mewn datganiadau blaenorol y bydd y DU yn derbyn tua hanner lefel gyfredol y derbyniadau Amcan 2 a 3, ac er na chafwyd unrhyw gytundeb ar y ffigurau terfynol hyd yn hyn, gwyddom y bydd y rhaglenni ar gyfer Dwyrain Cymru yn llai o lawer. Byddwn yn parhau i bwyso am setliad teg i Ddwyrain Cymru. Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn anelu at ffurfio fersiwn derfynol NSRF y DU. Daeth mwy na 350 o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori i law’r Adran Masnach a Diwydiant, a disgwylir i'r rhain fod ar dudalennau gwe yr Adran Masnach a Diwydiant erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Llywyddiaeth y Ffindir yn yr UE

Ar 1 Gorffennaf 2006, bydd Llywyddiaeth y Ffindir yn yr UE yn dechrau. Anerchodd Prif Weinidog y Ffindir, Matti Vanhanen, Senedd y Ffindir ar 21 Mehefin 2006, gan amlinellu pum blaenoriaeth allweddol Llywyddiaeth y Ffindir.

Y flaenoriaeth gyntaf fydd gwneud cynnydd ar y Cytuniad Cyfansoddiadol ac ar y broses ehangu. Mae'r Ffiniaid yn cefnogi'r dull ‘deuol’ y cytunwyd arno’n ddiweddar yn y Cyngor Ewropeaidd: dylai'r UE ganolbwyntio yn awr ar ddarparu canlyniadau cadarn drwy wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan y Cytuniadau presennol. Ar yr un pryd, bydd y Ffiniaid, mewn cydweithrediad â Llywyddiaeth yr Almaen a'r Comisiwn, yn ymgymryd â gwaith paratoi anffurfiol ar

ddyfodol y Cytuniad Cyfansoddiad.

Wrth ehangu, bydd y trafodaethau â Thwrci a Chroatia am aelodaeth, a’r sefyllfa yng Ngorllewin y Balcanau, yn mynnu sylw'r Ffiniaid. Bydd amserlen ymaelodi Rwmania a Bwlgaria hefyd yn cael ei benderfynu yn yr hydref.

Yr ail flaenoriaeth fydd cystadleurwydd yr UE. Mae'r Ffiniaid yn cynllunio cyfarfod anffurfiol yn null ‘Hampton Court’ rhwng y Penaethiaid yn Lahti ar 20 Hydref, lle bydd cystadleurwydd ac arloesi ar yr agenda. Bydd y Penaethiaid hefyd yn trafod polisi ynni allanol, ac mae Prif Weinidog y Ffindir wedi gwahodd Vladimir Putin, Llywydd Ffederasiwn Rwsia, i fynychu'r cinio ar ôl y cyfarfod. Trydedd flaenoriaeth Llywyddiaeth y Ffindir fydd cysylltiadau allanol, ac yn benodol, y berthynas rhwng yr UE a Rwsia.

Yn bedwerydd, mae Llywyddiaeth y Ffindir am ganolbwyntio ar Gyfiawnder a Materion Cartref, a bydd yn nodi posibiliadau i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar yr heddlu a chydweithredu barnwrol.

Yn olaf, mae Llywyddiaeth y Ffindir yn gobeithio sicrhau mwy o dryloywder yn yr UE, a bydd yn ceisio cynnal mwy o sesiynau yn gyhoeddus, yn unol â chasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin. Fodd bynnag, maent yn cytuno bod angen cael cydbwysedd o hyd, ac y dylai Gweinidogion gynnal trafodaethau cyfrinachol lle bo angen.

## Newyddion Ewropeaidd

Cynllun ymreolaeth Catalonia – Mae pleidleisiwr yng Nghatalonia wedi cefnogi siarter newydd i roi mwy o annibyniaeth i'w rhanbarth. Mae'r cynllun ymreolaeth, a gefnogwyd eisoes gan lywodraeth Sbaen, yn rhoi mwy o bwerau i senedd Catalonia o safbwynt materion barnwrol a threthi. Yn ogystal, bydd gan y Catalaniaid statws cenedl o fewn Sbaen. Y refferendwm oedd y cam olaf mewn proses a ddechreuodd fis Medi diwethaf. Dangosodd y canlyniadau fod 73.9% o blaid y cynllun a bod 20.8% yn ei erbyn (dim ond 49% o’r boblogaeth a bleidleisiodd). Mae Catalonia yn cyfrif am un rhan o bump o economi Sbaen. (Cyflwynir papur yn trafod goblygiadau a pherthnasedd cynllun ymreolaeth Catalan i Gymru i'r Pwyllgor maes o law)

Cytuno ar gynghrair yr Ukrain – Ar ôl misoedd o anghytundeb llwyr, mae'r tair plaid wleidyddol sy'n gefnogol i'r Gorllewin, a oedd yn gyfrifol am Chwyldro Oren yr Ukrain yn 2004, wedi cytuno i ffurfio cynghrair - buont wrthi'n ceisio gwneud hyn ers yr etholiadau ym mis Mawrth. Y tair plaid dan sylw yw plaid y Llywydd Viktor Yushenko, y Sosialwyr, a'r cyn-Brif Weinidog Yulia Tymoshenko.

Sancsiynau Belarws – Mae'r Unol Daleithiau wedi ymestyn y sancsiynau a roddwyd ar Lywydd Belarws, Alexander Lukashenko. Mae holl asedau Mr Lukashenko yn yr UD wedi'u rhewi, a gwaherddir dinasyddion yr UD rhag delio ag ef o safbwynt busnes. Mae'r sancsiynau hyn hefyd yn berthnasol i naw o swyddogion eraill Belarws. Roedd yr UE eisoes wedi rhewi asedau Mr Lukashenko a 35 o'i gynorthwywyr yn yr UE, ac wedi rhoi gwaharddiad fisa ar y llywydd a 30 o swyddogion. Mae'r sancsiynau yn dilyn ail-etholiad dadleuol y Llywydd ym mis Mawrth.

**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog Cymru**

**EEAC First Minister's Reprt**

| Date | Assembly Minister/ Official/ Division | Event | Objectives | Outcomes |
|---|---|---|---|---|
| 24 June 2006 | Minister for Enterprise, Innovation and Networks | Sea Fair Haven event, Milford Marina, Ireland | To build a working relationship with Irish Government regarding Marine Development. | |
| 28 June 2006 | Minister for Education, Lifelong Learning and Skills | Reception for Chevening Scholars, Senedd | The reception is designed to celebrate the achievement of the Chevening scholars (young professionals from many overseas countries) who are studying in Wales and the West of England. It enables them to meet some of their sponsors from the Foreign and Commonwealth Office, who will be attending, along with university staff and AMs. | The event gave the Minister the opportunity to meet the scholars informally and to find out their experiences of higher education in Wales. |
| 28 June 2006 | First Minister | Visit of Alderman David Brewer, the Lord Mayor of London | To meet companies in the financial sector in Wales and to explore with them ways in which the City of London can maintain its important links with Cardiff and its financial sector. | Greater visibility for Welsh financial institutions overseas with all the potential benefits this would bring. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 July 2006 | First Minister | Visit of Mr Joao Roberto - Cape Verde Honorary Consul | To meet the First Minister to discuss re-creating links between Cardiff/Wales and Mindelo, Cape Verde. | |
| 5 July 2006 | First Minister | Visit of HE Mr Lachezar Nikolov Matev, Ambassador to Bulgaria | To meet the First Minister, Presiding Officer and officials of International Business Wales, during his first visit to Wales. | |
| 12 July<br><br>2006 | First Minister and Minister for Enterprise, Innovation and Networks | Meetings with Latvian Economic Minister,<br><br>Aigars Štokenbergs | To welcome Mr Štokenbergs to Wales and to discuss the MoU with Latvia together with wider economic development issues. | |